Teitl y Swydd: Swyddog Gwyddonol Microbioleg Foleciwlaidd

Uned/Ysgol: Canolfan Diwydiant Bwyd ZERO2FIVE, Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

Gradd: 6AB

HERA: ACEMPFUN 04

**Diben craidd y rôl**
Bydd y rôl hon yn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau microbioleg bwyd gymhwysol a gwyliadwriaeth foleciwlaidd yng Nghanolfan Diwydiant Bwyd ZERO2FIVE, gan roi sylw penodol i *Listeria monocytogenes* a rhywogaethau eraill o *Listeria* mewn amgylcheddau gweithgynhyrchu bwyd. Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda busnesau bwyd i gynllunio a chynnal samplu amgylcheddol a samplu sy'n ymwneud â bwyd, adfer a nodweddu ynysiadau *Listeria* gan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar feithrin, cynnal dilyniannu genom cyfan gan ddefnyddio platfform Illumina MiSeq, a chynnal dadansoddiad data dilynol i asesu perthynas rhwng straeniau, parhad, ffyrnigrwydd a nodweddion goddefgarwch i straen.

Disgwylir i ddeiliad y swydd drosi canfyddiadau technegol yn adroddiadau clir ac argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer diwydiant, gan gefnogi gwelliannau mewn monitro amgylcheddol, arferion hylendid, ymchwilio i achosion sylfaenol a strategaethau rheoli mewn busnesau gweithgynhyrchu bwyd. Bydd y rôl hefyd yn cyfrannu at brosiectau technegol a gwyddonol cydweithredol, gweithgarwch contract, allbynnau cyhoeddi, a goruchwylio prosiectau myfyrwyr lle bo'n briodol.

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**.

- Helpu i oruchwylio prosiectau myfyrwyr (BSc ac MSc).
- Cynnal ymchwiliad microbiolegol a genomig o'r dechrau i'r diwedd i amgylcheddau gweithgynhyrchu bwyd - gan gynnwys samplu, dadansoddi yn y labordy, dilyniannu, biowybodeg a dehongli data - gan gyflwyno argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, cefnogi prosiectau ymchwil a chontract, a sicrhau rheoli data cadarn a chydymffurfiaeth reoleiddiol.
- Cynhyrchu, cyflwyno a lledaenu allbynnau technegol a gwyddonol o ansawdd uchel - gan gynnwys adroddiadau, cynigion a chyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid - gan gyfathrebu gwybodaeth gymhleth yn effeithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid drwy sianeli ysgrifenedig, llafar a digidol.
- Meithrin a chynnal rhwydweithiau mewnol ac allanol effeithiol, gan gydweithio â chydweithwyr, myfyrwyr a chymheiriaid i rannu gwybodaeth, meithrin partneriaethau a nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio a chyllid yn y dyfodol.
- Darparu arweiniad a chymorth i staff a myfyrwyr wrth reoli cyfrifoldebau technegol, prosiect a gweinyddol yn annibynnol, gan geisio mewnbwn lle bo angen.

- Cyfrannu'n weithredol fel aelod o'r tîm microbioleg, gan gydweithio â chydweithwyr ar weithgareddau gwyddonol a masnachol ar y cyd a chymryd rhan mewn cyfarfodydd perthnasol.
- Dangos proffesiynoldeb ac empathi wrth gefnogi eraill, gan nodi'n rhagweithiol pryd mae angen cymorth, a chymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad personol a chymorth parhaus sy'n briodol i'r rôl.
- Cymhwyso dulliau gwyddonol arloesol a dulliau dadansoddol i ddehongli data, datrys heriau technegol a llywio'r broses o wneud penderfyniadau, gan gyfrannu ar yr un pryd at weithgareddau tîm cydweithredol a sbarduno gwelliant parhaus wrth gyflawni prosiectau a datblygu gwasanaethau.
- Cynllunio a rheoli gweithgareddau technegol a phrosiect o ddydd i ddydd, gan gydlynu ag eraill i sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau, aliniad ag amcanion y rhaglen a chyflawni gwaith gwyddonol a chontract cydweithredol yn effeithiol.
- Cyflawni amrywiaeth o dasgau technegol heriol sy'n gofyn am sgiliau arbenigol, gan reoli llwythi gwaith amrywiol yn effeithiol a chydbwyso blaenoriaethau prosiect ac gweinyddol er mwyn cyrraedd terfynau amser, gyda chymorth lle bo'n briodol.
- Mae'n ofynnol bod yn ymwybodol o'r risgiau yn yr amgylchedd gwaith a'u heffaith bosibl ar eu gwaith eu hunain a gwaith eraill.
- Dangos gwybodaeth arbenigol gadarn am ddulliau a thechnegau gwyddonol perthnasol, gan gymhwyso hyn o fewn rhaglenni sefydledig wrth ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus a hyrwyddo ymwybyddiaeth o ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn gwaith technegol a gwyddonol.
- Bydd deiliad y swydd yn dilyn polisïau Cardiff Met yn weithredol, gan gynnwys polisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac yn cynnal ymwybyddiaeth o reoliadau Diogelwch Tân ac Iechyd a Diogelwch ac yn cydymffurfio â hwy.

## <u>Manyleb y person</u>

**Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol**

- MSc neu uwch mewn maes technegol perthnasol.

**Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol**

1. Gwybodaeth dda am ficrobioleg bwyd a microbioleg foleciwlaidd mewn cyd-destunau cymhwysol.
2. Dealltwriaeth o weithgareddau gwyddonol, technegol ac arloesi ym maes microbioleg bwyd ac amgylcheddau gweithgynhyrchu.
3. Gwybodaeth eang a/neu fanwl am y pwnc i gefnogi prosiectau mewn microbioleg bwyd a gwyliadwriaeth foleciwlaidd.
4. Profiad ymarferol o dechnegau labordy microbiolegol a moleciwlaidd sy’n berthnasol i samplau bwyd ac amgylcheddol.
5. Profiad ymarferol o dechnegau microbioleg foleciwlaidd, gan gynnwys echdynnu DNA, dilyniannu genom cyfan Illumina MiSeq a dehongli data.
6. Profiad o ddefnyddio offer a llifoedd gwaith biowybodeg ar gyfer dilyniannu genom cyfan microbaidd.

7. Y gallu i ddadansoddi data microbiolegol a genomig a throsi canfyddiadau yn adroddiadau clir ac argymhellion ymarferol.
8. Sgiliau cyfathrebu effeithiol i gyflwyno gwybodaeth gymhleth drwy adroddiadau, cyflwyniadau a chyhoeddiadau.
9. Y gallu i gefnogi cynllunio a chyflawni prosiectau neu gynigion technegol, gwyddonol a chontract.
10. Sgiliau trefnu cadarn, gyda'r gallu i gwblhau tasgau gweinyddol yn gywir ac ar amser.
11. Y gallu i weithio ar y cyd, gan feithrin perthnasoedd a phartneriaethau proffesiynol effeithiol o fewn timau prosiect.
12. Hyfedredd mewn TG a meddalwedd dadansoddol, ynghyd ag ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

**Dymunol**

1. Gwybodaeth am fioleg *Listeria monocytogenes*, arferion hylendid bwyd a rheoli halogiad mewn amgylcheddau gweithgynhyrchu bwyd.
2. Profiad amlwg o brosiectau microbioleg bwyd gymhwysol, gan gynnwys cydweithio â phartneriaid diwydiant, datrys problemau technegol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid uwch.
3. Hanes cadarn o gyfathrebu a lledaenu gwyddonol, gan gynnwys cyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid, cyflwyniadau mewn cynadleddau, a'r gallu i feithrin perthnasoedd proffesiynol effeithiol.

**Gofynion sgiliau Cymraeg**

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd yng Nghaerdydd Met, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau Cymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, sicrhewch eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifiad cyffredinol | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn Gymraeg. | Dymunol | Dymunol | Dymunol | Dymunol |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu ymdrin â gwybodaeth syml, uniongyrchol a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n ymwneud â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi fy hun yn Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg. | | | | |
| **C2 - Defnyddiwr meistrolgar**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg. | | | | |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Nid oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

**Gwybodaeth ategol**

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r fanyleb person hon fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau moesegol a phroffesiynol uchaf o ran ymddygiad. Felly, disgwylir i bob cyflogai roi sylw dyledus i effaith ei ymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob cyflogai ddangos ei fod yn cadw at ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob cyflogai roi sylw penodol i'w gyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.